

SWYDDOGOL
HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

GWEITHDREFN		
Teitl:	Rhoddion, Arian Rhodd a Lletygarwch	
Maes Busnes / Ymarfer:	Safonau Proffesiynol	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Safonau Proffesiynol	
Cyhoeddwyd yn Gyntaf:	20/03/01	
Adolygwyd Diwethaf:	30/10/2019	Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i gyflogeion:
Rhif y Fersiwn:	11 (allanol)	Prif Gwnstabl
AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:		
Sicrhau bod Swyddogion a Staff Heddlu De Cymru yn parhau i fod yn foesebol a deall sut y gall derbyn rhoddion, arian rhodd neu letygarwch danseilio uniondeb personol a phroffesiynol; a phwysleisio pwysigrwydd atal honiadau o arferion llwgr neu gydberthnasau amhriodol ag unrhyw aelod o'r cyhoedd.		
ASESIAD RISG CYFFREDINOL		
DD/G		
GWEITHDREFN:		
1. <u>Cyflwyniad</u>		
1.1. Mae'r canllawiau hyn yn darparu fframwaith i Swyddogion a Staff yr Heddlu benderfynu ar ffiniau derbynol o ran derbyn rhoddion, arian rhodd a lletygarwch.		
1.2. Mae'n rhaid i Swyddogion a Staff yr Heddlu ddeall y gall derbyn rhoddion, arian rhodd neu letygarwch danseilio uniondeb personol a phroffesiynol. Mae gan Heddlu De Cymru hefyd gyfrifoldeb i atal honiadau o arfer llwgr neu gydberthnasau amhriodol ag unrhyw aelod o'r cyhoedd neu gorff corfforaethol, sy'n deillio o gynnig neu dderbyn unrhyw rodd, arian rhodd neu letygarwch.		
1.3. Yr Adran Safonau Proffesiynol sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am oruchwylio a chraffu ar y gweithdrefnau sy'n llywodraethu'r trefniadau o ran derbyn unrhyw rodd, arian rhodd neu letygarwch, neu fel arall.		
1.4. Mae pob aelod o Heddlu De Cymru yn gyfrifol am roi gwybod i'r Adran Safonau Proffesiynol am unrhyw gynnig o rodd, arian rhodd neu letygarwch sy'n peri pryder iddynt o bosibl.		
2. <u>Egwyddorion Allweddol</u>		
2.1. Dylai Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu ddangos y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol, gonestrwydd ac uniondeb. Yn benodol, ni ddylent beryglu na chamddefnyddio eu statws drwy ofyn am rodd, arian rhodd neu letygarwch mewn unrhyw ffordd sy'n gysylltiedig â'u rôl yng Ngwasanaeth yr Heddlu, neu sy'n codi yn sgil hynny, p'un a ydynt ar ddyletswydd neu beidio.		

SWYDDOGOL
HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

- 2.2. Fel canllaw arweiniol arall, ni ddylai Swyddogion yr Heddlu na Staff yr Heddlu dderbyn cynnig o unrhyw rodd, arian rhodd, cymwynas na lletygarwch oni bai bod hynny'n cydymffurfio â'r amgylchiadau a'r ystyriaethau a nodir isod, gan y gallai derbyn y cynnig hynny beryglu eu didueddrwydd neu arwain at ganfyddiad o berygl o'r fath.
- 2.3. Mae cynigion rhodd, arian rhodd neu letygarwch yn amrywio'n fawr yn unol â'r amgylchiadau, a byddant yn amrywio o enghreifftiau o droseddu y gellir eu nodi'n hawdd (megis torri Deddf Llwgrwobrwyo 2010) hyd at achosion cwbl priodol a rhesymol o ddangos diolchgarwch a chwarteisi cyffredin nad ydynt yn torri uniondeb unrhyw barti.
- 2.4. Mae darpariaethau Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn cynnwys dwy drosedd gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys, Adran 1 – cynnig, addo neu roi llwgrwobr (llwgrwobrwyo gweithredol) Adran 2 – gofyn am llwgrwobr, cytuno i gael llwgrwobr neu dderbyn llwgrwobr (llwgrwobrwyo goddefol). Mae darpariaethau'r Ddeddf yn ymestyn diffiniad llwgrwobrwyo i gynnwys ceisio ysgogi'r gwaith o gyflawni dyletswyddau mewn ffordd amhriodol (neu gytuno i wneud hynny) sy'n cynnwys swyddogaeth gyhoeddus megis plismona. Mae perfformiad amhriodol yn gyfystyr â thorri unrhyw ddisgwyliad y bydd unigolyn yn ymddwyn yn ddiwyll, yn ddiuedd ac yn unol â'i swydd gyfrifol.
- 2.5. Nid yw'r Ddeddf yn gwahardd lletygarwch rhesymol a chymesur na gwariant hyrwyddol neu wariant busnes tebyg arall y bwriedir iddo wella delwedd sefydliad masnachol, marchnata cynhyrchion a gwasanaethau neu feithrin cydberthnasau busnes. Fodd bynnag, mae'n glir y gellir defnyddio lletygarwch, gwariant hyrwyddol neu wariant busnes tebyg arall fel llwgrwobr. Bydd ystyriaethau mewn perthynas â hyn yn ymwneud â graddau haelioni'r arian rhodd neu'r lletygarwch, ei werth cymharol, norm y diwydiant a'r graddau y mae'r arian rhodd neu'r lletygarwch yn gysylltiedig â'r busnes dan sylw. Gall arian rhodd neu letygarwch gwirioneddol, neu fel arall, a gynigiwyd neu a dderbyniwyd yn y gorffennol fod yn berthnasol hefyd.
- 2.6. Wrth gyflawni eu dyletswyddau yn y gymuned, mae'n bosibl y bydd pobl yn cynnig rhoddion neu letygarwch i Swyddogion yr Heddlu neu Staff yr Heddlu o bryd i'w gilydd na fyddai'n torri uniondeb y naill barti neu'r llall o dan yr amgylchiadau. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys darparu lluniaeth ysgafn fel chwarteisi cyffredin yn unol â dyletswyddau'r heddlu, cynnyrch hyrwyddol rhad gan bartneriaethau neu gynadleddau neu ostyngiadau sydd wedi'u hanelu at aelodau o'r gwasanaeth heddlu ehangach.
- 2.7. Dylai Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu fod yn ymwybodol, o bryd i'w gilydd, y gallai gwrthod derbyn cynnig o'r fath achosi tramgwydd yn ddiangen neu effeithio ar gydberthnasau gwaith cynhyrchiol. Yn yr un modd, gallai derbyn cynnig o'r fath gael ei gamddechongli a gallai arwain at ddisgwyliadau anghywir o ffafwr neu wasanaeth.
- 2.8. Lle mae unrhyw amheuaeth, dylid ceisio cyngor gan yr Adran Safonau Proffesiynol.**

3. Cofrestr Rhoddion, Arian Rhodd a Lletygarwch.

- 3.1. Mae Heddlu De Cymru yn cynnal un Gofrestr Rhoddion, Arian Rhodd a Lletygarwch sy'n cael ei rheoli'n uniongyrchol gan Bennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol. Gellir dod o hyd i'r gofrestr ar Fewnrwyd yr Heddlu, drwy dudalen yr Adran Safonau Proffesiynol neu drwy ddefnyddio'r gair allweddol 'Rhodd' i chwilio'r wefan.
- 3.2. Bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn sicrhau y cynhelir gwaith craffu, archwilio a llywodraethu ar y gofrestr yn unol â threfniadau llywodraethu corfforaethol ehangach ar gyfer uniondeb ac atal llygredigaeth.
- 3.3. Caiff y gofrestr ei chyhoeddi ar wefan gyhoeddus yr Heddlu ar yr amod bod adolygiadau yn ystyried Diogelu Data a phrawf niwed, gan olygu'r gofrestr pan fo'n briodol.
- 3.4. Os na roddir cymeradwyaeth ond bod dychwelyd yr eitem yn debygol o beri tramgwydd, yna dylai'r eitem gael ei rhoi i achos da sy'n gysylltiedig â'r Heddlu, os yw'n ymarferol.
- 3.5. Mae hefyd yr un mor bwysig cofnodi achosion o **wrthod** derbyn rhodd, arian rhodd neu letygarwch gan y bydd hyn yn darparu gwybodaeth mewn achosion lle y gwneir ceisiadau i lygru Swyddogion a Staff gyda chynigion o'r fath.
- 3.6. Bydd cofnodion yn y Gofrestr yn cynnwys natur y cynnig, yr amgylchiadau y gwnaed y cynnig ynddynt, gwerth amcangyfrifedig y rhodd, yr arian rhodd neu'r lletygarwch, a ph'un a ofynnwyd am ganiatâd neu awdurdod i dderbyn cynnig o'r fath, neu a roddwyd hynny.
- 3.7. Caiff cofnodion eu hadolygu fesul cofnod gan Bennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol, sy'n gallu darparu cyfarwyddiadau drwy'r gofrestr unigol, neu bennu camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r cynnig fel arall.
- 3.8. Bydd y gofrestr ganolog ar gael i aelod o Grŵp y Prif Swyddogion ei harchwilio bob amser a bydd hefyd ar gael i bob aelod o Heddlu De Cymru yn unol ag ethos bod yn agored a thryloyw.

4. Ystyriaethau

- 4.1. Bydd yr ystyriaethau canlynol yn helpu'r Staff i bennu ffiniau derbyn unrhyw rodd, arian rhodd neu letygarwch. Defnyddir talfyriad GIFT yn aml:
 - 4.1.1. **A yw'n ddilys (Genuine):** A wnaed y cynnig hwn am resymau gwirioneddol er mwyn gwerthfawrogi rhywbeth a wnaed? Pam mae'r cynnig yn cael ei wneud? Beth yw'r amgylchiadau? A ofynnwyd am y cynnig mewn unrhyw fforddneu a yw'r rhoddwr yn teimlo fel petai'n gorfod gwneud y cynnig?
 - 4.1.2. **A yw'n annibynnol (Independent):** A fyddai'r cynnig neu dderbyn y cynnig yn rhesymol ym marn y cyhoedd? A fyddai gwyliwr rhesymol yn hyderus y

SWYDDOGOL
HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

gallai'r aelod hwnnw o Staff aros yn ddiuedd ac yn annibynnol yn yr holl amgylchiadau?

4.1.3. **A yw am ddim (Free):** A oes angen i chi wneud rhywbeth yn gyfnewid am y cynnig? Beth yw eich barn am briodoldeb y cynnig? Beth yw disgwyliadau'r rhoddwr petaech yn derbyn y cynnig?

4.1.4. **A yw'n dryloyw (Transparent):** A fydddech yn teimlo'n gyfforddus petai'r ffaith eich bod wedi derbyn y cynnig yn dryloyw i'ch Heddlu, eich cydweithwyr a'r cyhoedd neu petai'n cael ei rhannu'n gyhoeddus? Beth gallai'r canlyniad ei olygu i'r Heddlu petai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn neu ei wrthod?

4.2. Mae'r achosion canlynol yn darparu canllawiau ychwanegol ond ni ddylid eu hystyried yn rhestr gynhwysfawr: Gellir derbyn Rhodd yn yr amgylchiadau canlynol:

4.2.1. Os yw'n fach neu'n rhad ei natur (e.e. dyddiaduron, calendrau, deunydd ysgrifennu neu eitemau bach eraill a gynigir yn ystod ymweliad cwrteisi neu gynhadledd).

4.2.2. Os yw'n eitem goffaol fach a geir gan gynrychiolwyr gwadd asiantaethau gorfodi'r gyfraith neu asiantaethau llywodraethol neu sefydliadau tebyg.

4.2.3. Os yw'n rhodd ddilys, ddigymell a rhad gan aelod o'r cyhoedd neu ddiodefwr trosedd a gynigir i swyddogion neu dimau unigol er mwyn dangos gwerthfawrogiad gwirioneddol am wasanaeth rhagorol, lle na fyddai'r rhodd neu'r lletygarwch yn gallu cael ei wrthod mewn ffordd gwrtais heb beri tramgwydd neu gywilydd i'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n gwneud y cynnig. Mae eitemau derbyniol yn cynnwys bisgedi, siocledi, blodau ac eitemau sydd â gwerth enwol sy'n llai na £10.

4.2.4. Gall alcohol fod yn dderbyniol ond dylid ystyried yn ofalus yr amgylchiadau y caiff ei gynig ynddynt, a beth fyddai barn y cyhoedd petaech yn derbyn y cynnig hwnnw.

4.3. Ni ddylid derbyn Rhodd yn yr amgylchiadau canlynol:

4.3.1. Os caiff ei rhoi gan gontractwr allanol neu gwmni sy'n tendro am waith gyda'r Heddlu neu wasanaeth ehangach

4.3.2. Os yw'n daliad o arian parod (ac eithrio rhoddion i elusennau penodol yr Heddlu neu elusennau a gefnogir gan yr Heddlu)

4.3.3. Os yw'n wobr ariannol o ganlyniad i gyhoeddi erthyglau sy'n ymwneud â rôl neu ddyletswyddau'r derbynnydd dan sylw fel aelod o Wasanaeth yr Heddlu

4.3.4. Dylid datgan a gafodd rhoddion o'r fath eu derbyn neu eu gwrthod yng Nghofrestr yr Heddlu.

4.4. Gellir derbyn Rhodd Arian yn yr amgylchiadau canlynol:

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL
SWYDDOGOL

4.4.1. Os yw'n gynnig neu'n ostyngiad a negodwyd drwy Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas yr Uwcharolygwyr neu gymdeithas staff neu undeb llafur arall.

4.4.2. Os yw'n ostyngiad i weithwyr gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys aelodau o wasanaeth yr Heddlu a gynigir am fod gan y sefydliad sail gwsmeriaid fawr (a bod yr Heddlu wedi cymeradwyo cynnig o'r fath yn glir).

4.4.3. Os yw'n cynnig trefniadau teithio am ddim neu am bris gostyngol i Swyddogion a Staff a gaiff eu cymeradwyo a'u negodi'n ffurfiol drwy'r Heddlu er mwyn cefnogi plismona gweithredol a gwasanaethau cyhoeddus.

4.4.3.1. Nid yw'n ofynnol datgan arian rhodd o'r fath yng Nghofrestr yr Heddlu.

4.4.4. Nid yw arian rhodd sy'n golygu bod unigolyn yn cael budd o gynllun pwyntiau wrth brynu gwasanaethau, eitemau neu danwydd ar ran yr Heddlu yn dderbyniol.

4.5. Gellir derbyn Lletygarwch yn yr amgylchiadau canlynol:

4.5.1. Os yw'n ymestyn i ddarpariaeth lluniaeth ysgafn ddigymell wrth gyflawni dyletswyddau plismona.

4.5.2. Os yw'n bryd o fwyd confensiynol a ddarperir yn ystod diwrnod gwaith gan Heddlu arall neu asiantaeth bartner naill ai ym maes gorfodi'r gyfraith neu ddiogelwch cymunedol.

4.5.2.1. Yn y naill achos neu'r llall, nid yw'n ofynnol datgan lletygarwch o'r fath yng Nghofrestr yr Heddlu.

4.5.3. Gellir derbyn Lletygarwch hefyd yn yr amgylchiadau canlynol:

4.5.3.1. Os yw'n bryd o fwyd confensiynol a'i fod yn unol â dyletswyddau'r derbynnydd, er enghraifft mynychu cyfarfod, seminar neu gynhadledd a drefnwyd gan gorff allanol, cinio blynyddol cymdeithas gynrychioliadol sy'n gyfyngedig i ddigwyddiadau ynysig neu anfynych, a'i bod yn glir y gall fod er budd gorau'r Heddlu i fod yn bresennol.

4.5.3.2. Dylid ond derbyn cynigion i fynychu digwyddiadau cymdeithasol neu chwaraeon y gellid ystyried eu bod yn ddyletswydd sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o Heddlu De Cymru, os yw'r digwyddiadau hynny yn rhan o fywyd cymunedol, neu lle y mae angen dangos bod y Gwasanaeth yn cael ei gynrychioli'n swyddogol.

4.5.3.3. Dylid datgan cynnig o letygarwch o'r fath yng Nghofrestr yr Heddlu.

4.6. Ni fydd lletygarwch yn dderbyniol yn yr amgylchiadau canlynol:

4.6.1. Os yw'n arwain at fwyd neu luniaeth am ddim neu am bris gostyngol yn rheolaidd, pan fydd rhywun ar ddyletswydd neu beidio, lle caiff y cynnig ei

SWYDDOGOL
HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

wneud am fod y derbynnydd yn Swyddog yr Heddlu neu'n aelod o Staff yr Heddlu ac nid yw'n rhan o gynllun pris gostyngol cydnabyddedig a negodwyd yn ffurfiol.

4.6.2. Os bydd Staff yn cael cynnig gostyngiadau o'r fath, dylent eu gwrthod yn gwrtais.

4.6.3. Lle y caiff cynigion eu gwneud yn rheolaidd neu ar sail fwy cyson, dylai Staff rhoi gwybod am y mater i oruchwyliwr.

4.6.4. Dylai goruchwylwyr dynnu sylw'r unigolyn sy'n cynnig gostyngiadau o'r fath at y polisi hwn er mwyn ei annog i beidio â gwneud cynigion o'r fath, a rhoi gwybod iddo am y cyfleuster i drefnu cytundeb ffurfiol gyda Ffederasiwn yr Heddlu neu gymdeithas Staff.

4.6.5. Efallai y byddai'n briodol i Staff osgoi brynu bwyd o lefydd o'r fath er mwyn osgoi unrhyw gywilydd neu gyfaddawd; ni ddylai hyn effeithio ar unrhyw ddyletswyddau plismona arferol.

4.6.6. Mae'n cynnwys lefel uchel o haelioni sydd y tu allan i norm y diwydiant neu sydd y tu hwnt i ymdeimlad o gwrteisi cyffredin neu resymoldeb.

4.6.6.1. Dylid datgan cynigion o letygarwch o'r fath yng Nghofrestr yr Heddlu.

DEDDFWRIAETH A RHEOLIADAU:

DD/G